# Cynllun Colegau Cymru

## Cyfeirlyfr Iaith

## Cam 1 a 2

# Cynnwys / Contents


| | | *Tudalen / Page* |
|---|---|---|
| • **Yr wyddor** | **The alphabet** | **1** |
| • Ynganiad | Pronunciation | 1 |
| • **Y fannod** | **The definite article** | **2** |
| • Yr enw | The noun | 2 |
| • **Ansoddeiriau** | **Adjectives** | **3** |
| • Cymharu ansoddeiriau | Comparison of adjectives | 5 |
| • **Rhifolion** | **Numerals** | **6** |
| • Amser | Time | 7 |
| • **Arian** | **Money** | **7** |
| • Rhagenwau a threigladau | Pronouns & mutations | 8 |
| • **Arddodiaid** | **Prepositions** | **9** |
| • Y ferf 'bod' | The verb 'to be' | 11 |
| - amser presennol | - present tense | 11 |
| - amser amherffaith | - imperfect tense | 12 |
| - amser dyfodol | - future tense | 13 |
| • **Hoffwn i / Dylwn i** | **I would like / I should** | **14** |
| • Yr amser gorffennol | The past tense | 15 |
| • **Rhestr o ferfau** | **List of verbs** | **16** |
| • Ti/Chi | The use of Ti/Chi | 17 |
| • **Cwestiynau** | **Questions** | **19** |

## Yr wyddor — The alphabet

a b c ch d dd e f ff g ng h i (j) l ll m n o p ph r rh s t th u w y (28 + j)

## Y cytseiniaid — The consonants

b c ch d dd f ff g ng h j l ll m n p ph r rh s t th

## Y llafariaid — The vowels

a e i o u w y

## Ynganiad — Pronunciation

**Consonants**

**c** as in **c**ar
**ch** as in lo**ch**
**dd** as in **th**e
**f** as in **v**ase
**ff** as in o**ff**
**g** as in **g**arden
**ng** as in ga**ng**
to produce the sound **ll**, place the tip of your tongue against your upper palate and breathe out
**ph** as in **ph**otograph
**r** as in **r**ow
to produce the sound **rh** pronounce the Welsh "r" and breathe out
**th** as in **th**ink

**Vowels**

Vowels can be short or long
Also, note that "w" and "y" count as vowels
**a** as in c**a**r
**e** as in th**e**re
**i** as in tr**ee**
**o** as in p**o**t
**u** as in b**ee**n
**w** as in z**oo**
**y** can either be the sound in p**u**b or the sound in t**i**n

**Vowel combinations**

**ae / ai / au** as in **eye**
**aw** as in **aw**ay
**ey / ei / eu** as in w**ay**
**ew** please note how e and w are pronounced, and then try and put the sounds together
**uw / iw / yw** as in **ewe**
**oe / oi / ou** as in b**oy**
**ow** as in r**ow** of
**wy** as in g**ooey**

## Y fannod — The definite article

**y** before a word beginning with a consonant
e.g. **y** ci
**y** llyfr

**yr** before a word beginning with a vowel + h
e.g. **yr** afal
**yr** oren
**yr** haul

**'r** following a word ending with a vowel
e.g. gyda**'r** ci
i**'r** ysgol

## Yr enw — The noun

All nouns in Welsh are either masculine (gwrywaidd) or feminine (benywaidd).
The vocabulary on the mats note (g) / (b).

***Three rules to remember***

1. Feminine singular nouns mutate after the definite article - y, 'r:

| **Treiglad meddal** | | | **Soft mutation** |
|---|---|---|---|
| p > b<br>t > d<br>c > g<br>b > f<br>d > dd<br>g > -<br>m > f | pêl<br>troed<br>cath<br>basged<br>desg<br>gardd<br>merch | y bêl<br>y droed<br>y gath<br>y fasged<br>y ddesg<br>yr ardd<br>y ferch | No mutation in the plural<br>e.g. y peli<br>y merched<br>y desgiau |
| (ll & rh – no change) e.g. y llaw | | | |

2. Adjectives mutate following a feminine singular noun. No mutation after masculine and plural nouns:

| | | | |
|---|---|---|---|
| e.g. | merch **dd**a | bachgen da | merched da |
| | cath **f**awr | ci mawr | |
| | siwmper **dd**u | trowsus du | |

3. When counting:

| | | | |
|---|---|---|---|
| e.g. | un bachgen | un **f**erch | un + soft mutation |
| | dau **f**achgen | dwy **f**erch | dau/dwy + soft mutation |
| | tri bachgen | tair merch | |
| | pedwar bachgen | pedair merch | |

| Rhestr o ansoddeiriau Cam 1 a'r Cyfnod Sylfaen | | List of Adjectives |
|---|---|---|
| araf - slow<br><br>bach - small<br>bendigedig - fantastic<br>blasus - tasty<br>braf - fine<br>byr - short<br><br>caled - hard<br>crwn - round<br>cyflym - fast<br>cynnes - warm<br><br>garw - rough<br>gwag - empty<br>gwlyb - wet<br>gwyntog - windy<br><br>hapus - happy<br>hir - long | isel - low<br><br>llawn - full<br>llonydd - still<br>llyfn - smooth<br><br>mawr - big<br>meddal - soft<br><br>newydd - new<br>niwlog - foggy<br><br>oer - cold<br>ofnadwy - terrible<br><br>poeth - hot<br><br>sbeislyd - spicy<br>stormus - stormy<br>sych - dry<br>syth - straight | tawel - quiet<br>tonnog - wavy<br>trist - sad<br>trwm - heavy<br>twym - warm<br><br>uchel – high<br><br>wedi blino – tired<br><br>ysgafn - light (weight)<br><br>**Lliwiau - Colours**<br>brown - brown<br>coch - red<br>du - black<br>glas - blue<br>gwyn - white<br>gwyrdd - green<br>llwyd - grey<br>melyn - yellow<br>oren - orange<br>porffor - purple |

***A few rules to remember***

1. yn + soft mutation of adjective:

   Mae Megan yn **d**al. - *Megan is tall*.
   Mae Dai yn **d**awel. - *Dai is quiet.*

| | | |
|---|---|---|
| p > b<br>t > d<br>c > g<br>b > f<br>d > dd<br>g > -<br>m > f | pert - pretty<br>tawel - quiet<br>caled - hard<br>brown - brown<br>du - black<br>glas - blue<br>meddal - soft | yn **b**ert<br>yn **d**awel<br>yn **g**aled<br>yn **f**rown<br>yn **dd**u<br>yn **l**as<br>yn **f**eddal |
| ll & rh - no change<br><br>e.g. Eisteddwch yn **ll**onydd. - *Sit still.*<br>Mae'r gwaith yn **rh**wydd. - *The work is easy.* | | |

2. Position of adjectives in Welsh.
The adjective follows the noun in Welsh:

*good boy* > bachgen da

There are a few exceptions:

| | | |
|---|---|---|
| hen: | hen **dd**yn > *an old man* | |
| | hen **g**ath > *an old cat* | |
| unig: | unig **b**lentyn > *an only child* | |
| prif: | y prif **d**ref > *the main town* | |

+ soft mutation of both feminine and masculine nouns when adjective comes before the noun.

+ hoff / cas
e.g. Fy hoff **l**yfr ydy… - *My favourite book is…*
Beth ydy dy gas **f**wyd? - *What is your hated food?*

3. The adjective mutates following a feminine singular noun:

e.g. cath **dd**u
merch **b**ert
cadair **f**awr

| | | |
|---|---|---|
| 4. iawn - very (following the adjective) | Mae hi'n oer iawn.<br>Mae e / o'n dal iawn. | *It's very cold.*<br>*He is very tall.* |
| eitha - quite (before adjective) | Dw i'n eitha tal.<br>Mae hi'n eitha stormus. | *I'm quite tall.*<br>*It's quite stormy.* |
| rhy - too + soft mutation | Mae hi'n rhy **b**oeth. | *It's too hot.* |

## Cymharu ansoddeiriau — Comparison of adjectives

The easiest way to compare adjectives in Welsh is to put mor / mwy / mwya before the noun.

***Mor***

| | | |
|---|---|---|
| mor **d**al â | as tall as | Mae e mor dal â jiraff. |
| mor **d**enau â | as thin as | Mae nain mor denau â phensil. |
| mor **dd**u â | as black as | Mae gwallt mor ddu â'r frân 'da hi. |
| mor las â | as blue as | Mae ei llygaid mor las â'r môr. |

**ag** before a vowel e.g. mor goch ag afal

mor + soft mutation (not ll & rh) e.g. mor llonydd â… ( *as still as…* )

***Mwy***

yn fwy tal na - taller than
yn fwy byr na - shorter than
yn fwy cyflym na - faster than

Dw i'n fwy tal na Megan. - *I'm taller than Megan.*
Mae e'n / o'n fwy cyflym na Dafydd. - *He's faster than Dafydd.*

***Mwya***

y mwya tal - *tallest* e.g. Pwy ydy'r mwya tal?
y mwya cyflym - *fastest* Mari ydy'r **f**wya cyflym.
(Mutation - fem. nouns)

Some adjectives are irregular:

| | **equative** | **comparative** | **superlative** |
|---|---|---|---|
| bach<br>da<br>mawr | mor fach â / ag<br>cystal â<br>cymaint â | yn llai na<br>yn **w**ell na<br>yn **f**wy na | y lleia / lleiaf<br>y gorau<br>y mwya / mwyaf<br>y **f**wya / y **f**wyaf |

e.e. Ydy 5 yn fwy na 4? Ydy.
P'un ydy'r mwya?
P'un ydy'r lleia?

## Rhifolion — Numerals

| | | |
|---|---|---|
| 1 un<br>2 dau<br>3 tri<br>4 pedwar<br>5 pump<br>6 chwech<br>7 saith<br>8 wyth<br>9 naw<br>10 deg | 11 un deg un / un ar ddeg<br>12 un deg dau / deuddeg<br>13 un deg tri<br>14 un deg pedwar<br>15 un deg pump<br>16 un deg chwech<br>17 un deg saith<br>18 un deg wyth<br>19 un deg naw<br>20 dau ddeg | 21 dau ddeg un<br>30 tri deg<br>40 pedwar deg<br>50 pum deg<br>60 chwe deg<br>70 saith deg<br>80 wyth deg<br>90 naw deg<br>100 cant<br>1,000 mil<br>1,000,000 miliwn |

### ***A few rules to remember***

1. In Welsh, a number (up to 10) is followed by a singular noun
   e.g. tri llyfr
   saith cath
   wyth tŷ

2. After 10, use the plural
   e.g. dau ddeg o lyfrau
   un deg pump o gathod
   cant o dai — o + soft mutation

3. Un + soft mutation of feminine noun
   e.g. un **g**ath - un ci

4. Dau / dwy + soft mutation
   e.g. **dau g**i
   **dwy g**ath

5. Tri and chwe + aspirate mutation
   e.g. tri **ch**i — chwe **ch**adair
   tri **ph**eth — chwe **ph**ensil

6. With feminine singular nouns use **dwy, tair, pedair**:
   e.g. dwy gath, tair punt, pedair merch

## Amser Time

1. un o’r gloch
2. dau o’r gloch
3. tri o’r gloch
4. pedwar o’r gloch
5. pump o’r gloch
6. chwech o’r gloch
7. saith o’r gloch
8. wyth o’r gloch
9. naw o’r gloch
10. deg o’r gloch
11. unarddeg o’r gloch
12. deuddeg o’r gloch




pum munud wedi / i

deng munud wedi / i

chwarter wedi / i

ugain munud wedi / i

pum munud ar hugain wedi / i

hanner awr wedi

Soft mutation after yn / ’n - Mae hi’n **dd**au o’r gloch.

Time is feminine.

| | | |
|---|---|---|
| Faint o’r gloch ydy **hi**? | Mae hi’n **d**ri o’r gloch. | *It’s three o’clock.* |
| | Mae hi’n ugain munud i **dd**au. | *It’s 1.40.* |
| | i + soft mutation | |

## Arian Money

| | |
|---|---|
| ceiniog (b)<br>**dwy g**einiog *(soft mutation)*<br>tair ceiniog<br>pedair ceiniog<br>pum ceiniog<br>**chwe ch**einiog *(aspirate mutation)* | punt (b)<br>**dwy b**unt *(soft mutation)*<br>tair punt<br>pedair punt<br>pum punt<br>**chwe ph**unt *(aspirate mutation)* |

## Rhagenwau a threigladau — Pronouns and mutations

Nine letters mutate.

| | dy + **Treiglad meddal** *Soft mutation* | ei (g) + **Treiglad meddal** *Soft mutation* | fy + **Treiglad trwynol** *Nasal mutation* | ei (b) + **Treiglad llaes** *Aspirate mutation* |
|---|---|---|---|---|
| **p** | dy **b**en (your) | ei **b**en (his) | fy **mh**en (my) | ei **ph**en (her) |
| **t** | dy **d**rwyn | ei **d**rwyn | fy **nh**rwyn | ei **th**rwyn |
| **c** | dy **g**eg | ei **g**eg | fy **ngh**eg | ei **ch**eg |
| **b** | dy **f**rawd | ei **f**rawd | fy **m**rawd | ei brawd |
| **d** | dy **dd**esg | ei **dd**esg | fy **n**esg | ei desg |
| **g** | dy <u>a</u>rdd | ei <u>a</u>rdd | fy **ng**ardd | ei gardd |
| **m** | dy **f**am | ei **f**am | fy mam | ei mam |
| **ll** | dy **l**aw | ei **l**aw | fy llaw | ei llaw |
| **rh** | dy **r**aw | ei **r**aw | fy rhaw | ei rhaw |

Beth ydy ei enw e / o? — Ei enw e / o ydy…
Beth ydy ei **h**enw hi? — Ei **h**enw hi ydy …
Beth ydy eu **h**enwau nhw? — Eu **h**enwau nhw ydy…

Words beginning with a vowel introduce the letter 'h' after ei (her) and eu (their):

e.g. ei hafal - *her apple*
eu hathro - *their teacher*

## Arddodiaid — Prepositions

### Arddodiaid ar ôl berfau — Prepositions following verbs

| | | | |
|---|---|---|---|
| meddwl am | - to think about | edrych ar | - to look at |
| siarad am | - to talk about | gweiddi ar | - to shout at |
| siarad â | - to talk to | gwrando ar | - to listen to |
| dod â | - to bring | ysgrifennu at | - to write to (a person) |
| cyfarfod â | - to meet | gofyn i | - to ask |
| mynd â | - to take | ysgrifennu i | - to write to (a place) |
| ymweld â | - to visit | dweud wrth | - to tell |

### Arddodiaid a'r treigladau — Prepositions and mutations

| | | |
|---|---|---|
| am - at<br>ar - on<br>at - to<br>i - to<br>o - from<br>o dan - under<br>heb - without<br>dros - over<br>drwy - through<br>wrth - by / near | **+ soft mutation** | e.g. am **dd**au o'r gloch<br>i **G**aerfyrddin<br>heb **g**ot<br>dros **b**ont y dref |
| yn = in | **+ nasal mutation**<br>p > mh<br>t > nh<br>c > ngh<br>b > m<br>d > n<br>g > ng | e.g. y**m** **Mh**enybont<br>yn **Nh**regaron<br>y**ng** **Ngh**aerdydd<br>y**m** **M**angor<br>yn **N**inbych<br>y**ng** **Ng**wynedd |
| â - with / as<br>gyda / efo - with<br>tua - about | **+ aspirate mutation** | e.g. mor goch â **th**ân<br>gyda / efo **ch**yllell<br>tua **th**ri o'r gloch |

## Priod ddulliau  gydag arddodiaid — Idioms

**Ar**

| | |
|---|---|
| arna i<br>arnat ti<br>arno fe/fo<br>arni hi<br>arnon ni<br>arnoch chi<br>arnyn nhw | Mae hiraeth arna i. — *I'm homesick.*<br>Roedd hiraeth arno fe / fo. — *He was homesick.*<br>Mae ofn …arna i. — *I'm afraid of…*<br><br>Hefyd – afiechyd (illness)<br><br>Mae annwyd arna i. — *I have a cold.*<br>Oes peswch arnat ti? — *Have you got a cough?*<br>Does dim gwres arni hi. — *She hasn't got a temperature.* |

**Gan / Gyda**

| Gan | Gyda | Idiomau |
|---|---|---|
| gen i<br>gen ti / gennyt ti<br>ganddo fe / fo<br>ganddi hi<br>gennyn ni<br>gennych chi<br>ganddyn nhw | 'da fi<br>'da ti<br>'da fe<br>'da hi<br>'da ni<br>'da chi<br>'da nhw | Mae'n ddrwg gen i - I'm sorry<br>Mae'n ddrwg 'da fi<br><br>Mae'n gas gen i… - I hate<br>Mae'n gas 'da fi...<br><br>Mae'n well gen i… - I prefer<br>Mae'n well 'da fi…<br><br>+ salwch (tost)<br><br>Mae gwddw tost gen i. — *I have a sore throat.*<br>Mae cefn tost 'da fe. — *He has backache.*<br>Mae pen tost ganddi hi. — *She's got a headache.* |

## Y ferf “bod” — The verb “to be”

## Amser Presennol — Present Tense

| | ? | Negyddol |
|---|---|---|
| Dw i *Rydw i / Rwy’n* - I am | Ydw i? | Dw i ddim *Dydw i ddim* |
| Rwyt ti - you are | Wyt ti? | Dwyt ti ddim |
| Mae e / o - he is | Ydy e / o? | Dydy e / o ddim |
| Mae hi - she is | Ydy hi? | Dydy hi ddim |
| Rydyn ni *Ry’n ni* - we are | Ydyn ni? | Dydyn ni ddim *Dy’n ni ddim* |
| Rydych chi - you are | Ydych chi? | Dydych chi ddim |
| Maen nhw - they are | Ydyn nhw? | Dydyn nhw ddim |

e.g. Dw i’n hoffi darllen.
Mae hi’n cerdded.
Mae o’n chwarae pêl-droed.

**OND**

Dim yn / ’n o flaen *(before)* eisiau:
e.g. Mae hi eisiau bwyd.
Dw i eisiau mynd allan.

## I ateb cwestiynau — To answer questions

| | |
|---|---|
| Wyt ti’n...? | Ydw, dw i’n…<br>Nac ydw, dw i ddim yn… |
| Ydy e / o’n…? | Ydy, mae e / o’n …<br>Nac ydy dydy e / o ddim yn…. |
| Ydyn ni’n…? | Ydyn, rydyn ni’n…<br>Nac ydyn, dydyn ni ddim yn… |
| Ydych chi’n… (plural) | Ydyn, rydyn ni’n…<br>Nac ydyn, dydyn ni ddim yn… |
| Ydyn nhw’n….? | Ydyn, maen nhw…<br>Nac ydyn, dydyn nhw ddim yn… |

## Amser Perffaith — Perfect Tense

| | ? | Negyddol |
|---|---|---|
| Dw i wedi - I have | Ydw i wedi? - Have I? | Dw i ddim wedi - I haven't |
| Rwyt ti wedi - You have | Wyt ti wedi? - Have you? | Dwyt ti ddim wedi - You haven't |
| Mae e / o wedi - He has | Ydy e / o wedi? - Has he? | Dydy e ddim wedi - He hasn't |

e.g. Dw i wedi gorffen.
Rydyn ni wedi peintio llun.

Dw i wedi bod – I have been

e.g. Wyt ti wedi bod i Gaerdydd? *Have you been to Cardiff?*
Mae e wedi bod yn chwarae yn y parc. *He has been playing in the park.*

## Amser Amherffaith — Imperfect Tense

| | ? | Negyddol |
|---|---|---|
| Roeddwn i / *R'on i* - I was | Oeddwn i? | Doeddwn i ddim |
| Roeddet ti - You were | Oeddet ti? | Doeddet ti ddim |
| Roedd e / o - He was | Oedd e? | Doedd e / o ddim |
| Roedd hi - She was | Oedd hi? | Doedd hi ddim |
| Roedden ni - We were | Oedden ni? | Doedden ni ddim |
| Roeddech chi - You were | Oeddech chi? | Doeddech chi ddim |
| Roedden nhw - They were | Oedden nhw? | Doedden nhw ddim |

e.g. Roedd hi'n braf ddoe. *It was fine yesterday.*
Oedd hi'n bwrw glaw? Nac oedd. *Was it raining? No.*

## I ateb cwestiynau — To answer questions

| | |
|---|---|
| Oeddet ti….? | Oeddwn, roeddwn i…<br>Nac oeddwn, doeddwn i ddim… |
| Oedd e / o…? | Oedd, roedd e / o<br>Nac oedd, doedd e / o ddim… |
| Oedden ni….? | Oedden, roedden ni…<br>Nac oedden, doedden ni ddim... |
| Oeddech chi…? (plural) | Oedden / Nac oedden... |
| Oedden nhw….? | Oedden, roedden nhw…<br>Nac oedden, doedden nhw ddim... |

## Dyfodol/Presennol Arferiadol — The Future/Present Habitual

| | ? | Negyddol |
|---|---|---|
| Bydda i - I will/shall<br>Byddi di - You will<br>Bydd e/o - He will<br>Bydd hi - She will<br>Byddwn ni - We will<br>Byddwch chi - You will<br>Byddan nhw - They will | Fydda i? (Question mutates)<br>Fyddi di?<br>Fydd e/o?<br>Fydd hi?<br>Fyddwn ni?<br>Fyddwch chi?<br>Fyddan nhw? | Fydda i ddim (Negative mutates)<br>Fyddi di ddim<br>Fydd e/o ddim<br>Fydd hi ddim<br>Fyddwn ni ddim<br>Fyddwch chi ddim<br>Fyddan nhw ddim |

In the Present Habitual:

e.g. Faint o'r gloch fyddi di'n codi? *What time do you get up? (usually)*
Bydda i'n siopa ar nos Wener. *I shop on Friday evening. (usually / every Friday)*

## I ateb cwestiynau — To answer questions

| | |
|---|---|
| Fyddi di…? | Bydda, bydda i…<br>Na fydda, fydda i ddim… |
| Fydd e/o…? | Bydd, bydd e/o…<br>Na fydd, fydd _____ddim… |
| Fyddan nhw…? | Byddan, byddan nhw…<br>Na fyddan, fyddan nhw ddim... |

## Hoffwn i / Dylwn i — I would like / I should, I ought to

| | ? | Negyddol |
|---|---|---|
| Hoffwn i / Dylwn i<br>Hoffet ti<br>Hoffai e/o<br>Hoffai hi<br>Hoffen ni<br>Hoffech chi<br>Hoffen nhw | Hoffwn i? / **Dd**ylwn i?<br>Hoffet ti?<br>Hoffai e/o?<br>Hoffai hi?<br>Hoffen ni?<br>Hoffech chi?<br>Hoffen nhw? | Hoffwn i ddim / **Dd**ylwn i ddim<br>Hoffet ti ddim<br>Hoffai e/o ddim<br>Hoffai hi ddim<br>Hoffen ni ddim<br>Hoffech chi ddim<br>Hoffen nhw ddim |

| | |
|---|---|
| Hoffwn i + soft mutation<br>Dylwn i | Hoffwn i **g**offi.<br>Hoffet ti **f**ynd i'r sinema?<br>Dylwn i **f**ynd. |
| But not in the negative | Hoffen ni ddim <u>b</u>yw yn y wlad.<br><br>Ddylai e ddim <u>rh</u>edeg. |

There is a soft mutation in the question and negative form:

e.g. **Dd**ylwn i brynu blodau? *Should I buy flowers?*
**Dd**ylai e ddim chwarae rygbi. *He shouldn't play rubgy.*

## Yr Amser Gorffennol — The Past Tense

| Berfau rheolaidd | Regular verbs |
|---|---|
| Cerddais i<br>Cerddaist ti<br>Cerddodd e / o<br>Cerddodd hi<br>Cerddon ni<br>Cerddoch chi<br>Cerddon nhw | Terfyniadau'r amser gorffennol<br>Past tense verb endings<br><br>***Singular*** — - ais i, - aist ti, - odd e / o, - odd hi<br>***Plural*** — - on ni, - och chi, - on nhw<br><br>e.e. Darllenais i. *I read.*<br>Cerddon nhw. *They walked.*<br><br>Past tense + soft mutation of **object** of the verb.<br><br>e.g. Gwisgais i <u>dd</u>illad newydd. *I wore new clothes.* |

**Berfau afreolaidd — Irregular verbs**

| Mynd | Dod | Gwneud | Cael |
|---|---|---|---|
| Es i | Des i | Gwnes i | Ces i |
| Est ti | Dest ti | Gwnest ti | Cest ti |
| Aeth e / o | Daeth e / o | Gwnaeth e / o | Cafodd e / o |
| Aeth hi | Daeth hi | Gwnaeth hi | Cafodd hi |
| Aethon ni | Daethon ni | Gwnaethon ni | Cawson ni |
| Aethoch chi | Daethoch chi | Gwnaethoch chi | Cawsoch chi |
| Aethon nhw | Daethon nhw | Gwnaethon nhw | Cawson nhw |

**Cwestiynau yn y gorffennol — Questions using the past tense**

| | | |
|---|---|---|
| **B**rynaist ti'r llyfr? | *Did you buy the book?* | Soft mutation in the question |
| **D**ynnaist ti lun? | *Did you draw a picture?* | |
| **G**est ti frechdanau? | *Did you have sandwiches?* | Answer - **Do / Naddo** |
| **F**wytaist ti dy ginio? | *Did you eat your dinner?* | |
| **Dd**arllenoch chi'r stori? | *Did you read the story?* | |
| <u>W</u>elodd e'r ffilm? | *Did he see the film?* | |

adeiladu - to build
adio - to add
agor - to open
argraffu - to print
arllwys - to pour (SW)
arnofio - to float
arogli - to smell

beicio - to cycle
blasu - to taste
blodeuo - to flower
bwyta - to eat
byw - to live

cael - to have
canu - to sing
casglu - to collect
cerdded - to walk
clapio - to clap
clicio - to click
clywed - to hear
codi - to get up
cofrestru - to register
coginio - to cook
colli - to loose
costio - to cost
croesi - to cross
cropian - to crawl
cuddio - to hide
cyfrif - to count
cymysgu - to mix
cyrraedd - to arrive
cysgu - to sleep
cysylltu - to link

chwarae - to play
chwilio am - to look for

dal - to catch
darllen - to read
dawnsio - to dance
dechrau - to start
defnyddio - to use
dewis - to choose

diffodd - to switch off
digwydd - to happen
dilyn - to follow
disgrifio - to describe
dod - to come
dringo - to climb
dysgu - to learn

edrych ar - to look at
eisiau - to want
eistedd - to sit
ennill - to win

ffurfio - to form

gadael - to leave
glanhau - to clean
gludo - to glue
golchi - to wash
gorffen - to finish
gweithio - to work
gwisgo - to wear
gwisgo lan - to dress up (SW)
gwisgo i fyny (NW)
gwneud - to do, make
gwrando - to listen
gwylio - to watch

hau - to sow
helpu - to help
hoffi - to like

labelu - to label

llenwi - to fill
lluosi - to multiply
llusgo - to drag

meddwl - to think
merlota - to ride
mwynhau - to enjoy
mynd - to go
mynd â - to take

neidio - to jump
nofio - to swim

pysgota - to fish
peintio - to paint
perfformio - to perform
perthyn - to be related
plannu - to plant
plygu - to fold
prynu - to buy
pwyso - to weigh/press

rhannu - to share
rhedeg - to run
rhoi - to give/put

sblasio - to splash
sefyll - to stand
sgipio - to skip
siarad - to talk
siopa - to shop
stopio - to stop
suddo - to sink
sychu - to dry
symud - to move

tacluso - to tidy
taflu - to throw
teimlo - to feel
teipio - to type
teithio - to travel
torri - to cut
trefnu - to arrange
tyfu - to grow
tynnu - to pull
tynnu llun - to draw a picture
tywallt - to pour (NW)

yfed - to drink
ysgrifennu - to write
ysgwyd - to shake

## Ti / Chi — You – singular / plural

| Cwestiynau | | Questions |
|---|---|---|
| | **Ti** | **Chi** |
| Are you ready? | Wyt ti'n barod? | Ydych chi'n barod? |
| Can I / May I? Yes / No (sing) | Ga i? Cei / Na chei. | Gawn ni? Cewch / Na chewch |
| Do you have a picture of a cook? | Oes gen ti lun cogydd? | Oes gennych chi lun cogydd? |
| Do you have a picture of a doctor? | Oes llun doctor 'da ti? | Oes llun doctor 'da chi? |
| Do you have a teacher? | Oes gen ti athrawes? | Oes athrawes 'da chi? |
| Do you have the farmer? | Ydy'r ffermwr 'da ti? | Ydy'r ffermwr 'da chi? |
| Do you like? | Wyt ti'n hoffi…? | Ydych chi'n hoffi…? |
| Do you want? | Wyt ti eisiau…? | Ydych chi eisiau…? |
| How are you going? | Sut wyt ti'n mynd? | Sut ydych chi'n mynd? |
| How much / many do you want? | Faint wyt ti eisiau? | Faint ydych chi eisiau? |
| What are you doing? | Beth wyt ti'n wneud? | Beth ydych chi'n wneud? |
| What can you do? | Beth wyt ti'n gallu wneud? | Beth ydych chi'n gallu wneud? |
| What can you hear? | Beth wyt ti'n gallu glywed? | Beth ydych chi'n gallu glywed? |
| What can you see? | Beth wyt ti'n gallu weld? | Beth ydych chi'n gallu weld? |
| What do you hear? | Beth wyt ti'n glywed? | Beth ydych chi'n glywed? |
| What do you see? | Beth wyt ti'n weld? | Beth ydych chi'n weld? |
| When are you going? | Pryd wyt ti'n mynd? | Pryd ydych chi'n mynd? |
| Where are you going? | Ble wyt ti'n mynd? | Ble ydych chi'n mynd? |
| Where do you live? | Ble wyt ti'n byw? | Ble ydych chi'n byw? |
| Who do you like? | Pwy wyt ti'n hoffi? | Pwy ydych chi'n hoffi? |
| Why do you want...? | Pam wyt ti eisiau…? | Pam ydych chi eisiau…? |

## Gorchmynion — Commands

| | Ti | Chi |
|---|---|---|
| Arrange! | Trefna! | Trefnwch! |
| Be careful! | Bydd yn ofalus! | Byddwch yn ofalus! |
| Catch! | Dal! / Dalia! | Daliwch! |
| Clap! | Clapia! | Clapiwch! |
| Click! | Clicia! | Cliciwch! |
| Climb! | Dringa! | Dringwch! |
| Come! (SW) | Dere! | Dewch! |
| Come! (NW) | Tyrd! | Dewch! |
| Count! | Cyfra! / Rhifa! | Cyfrwch! / Rhifwch! |
| Cut! | Torra! | Torrwch! |
| Drag! | Llusga! | Llusgwch! |
| Draw a picture. | Tynna lun. | Tynnwch lun. |
| Drop! | Gollynga! | Gollyngwch! |
| Feel! | Teimla! | Teimlwch! |
| Form! / Make! | Ffurfia! / Llunia! | Ffurfiwch! / Lluniwch! |
| Go! (SW) | Cer! | Ewch! |
| Go! (NW) | Dos! | Ewch! |
| Listen! | Gwranda! | Gwrandewch! |
| Look! | Edrycha! | Edrychwch! |
| Make a pattern. | Gwna batrwm. | Gwnewch batrwm. |
| Mix the paint. | Cymysga'r paent. | Cymysgwch y paent. |
| Move! | Symuda! | Symudwch! |
| Play! | Chwaraea! | Chwaraewch! |
| Pour the water. | Arllwysa'r dŵr. | Arllwyswch y dŵr. |
| Press! / Weigh! | Pwysa! | Pwyswch! |
| Print! | Argraffa! | Argraffwch! |
| Put the duck on the water. | Rho'r hwyaden ar y dŵr. | Rhowch yr hwyaden ar y dŵr. |
| Read! | Darllena! | Darllenwch! |
| Roll! | Rholia! | Rholiwch! |
| Run! | Rheda! | Rhedwch! |
| Sing with me. | Cana gyda fi / Cana efo fi. | Canwch gyda fi /Canwch efo fi. |
| Sing! | Cana! | Canwch! |
| Sit! | Eistedda! | Eisteddwch! |
| Skip! | Sgipia! | Sgipiwch! |
| Start! | Dechreua! | Dechreuwch! |
| Stop! | Stopia! | Stopiwch! |
| Switch off! | Diffodda! | Diffoddwch! |
| Take your coat off. | Tynna / Tyn dy got. | Tynnwch eich cot. |
| Tidy up! | Taclusa! | Tacluswch! |
| Turn! | Tro! | Trowch! |
| Type! | Teipia! | Teipiwch! |
| Throw! | Tafla! | Taflwch! |
| Use! | Defnyddia! | Defnyddiwch! |
| Walk! | Cerdda! | Cerddwch! |
| Wash your hands. | Golcha / Golch dy ddwylo. | Golchwch eich dwylo. |
| Wear your coat. | Gwisga dy got. | Gwisgwch eich cot. |
| Write! | Ysgrifenna! | Ysgrifennwch! |

| **Cwestiynau** | **Questions** |
|---|---|

**Oes? / Ydy?**

Oes llyfr ar y bwrdd? Is there **a** book on the table? (indefinite article – a)

Oes - Yes
Nac oes - No

Ydy'r llyfr ar y bwrdd? Is **the** book on the table? (+ definite article)

Ydy - Yes
Nac ydy - No

Ydy Gareth yn yr ysgol? Ydy / Nac ydy

---

**Ble?** - Where?

e.g. Ble mae Dafydd?

---

**Beth?** - What?

e.g. Beth ydy hwn? – What's this?

Beth mae e / o'n **f**wyta? But Mae e / o'n **b**wyta afal.
Beth mae Jen yn **g**ael? Mae hi'n **c**ael cacen i de.

↖ Soft mutation in the question.

---

**Pwy?** - Who?

e.g. Pwy ydy e?
Pwy sy'n siarad?

---

**Pa?** - Which? + soft mutation

e.g. Pa **l**yfr wyt ti'n hoffi?
Pa **dd**illad wyt ti'n gwisgo?
Pa **dd**iwrnod ydy hi heddiw?

---

**Sut** + noun + soft mutation - What kind of?

e.g. Sut <u>w</u>allt sy 'da fe / ganddo fo?
Sut **d**ŷ sy 'da ti / gen ti?

---

**Sut** + verb - How?

e.g. Sut mae hi'n mynd?
Sut wyt ti'n teimlo?

| |
|---|
| **Sawl?** + singular noun - How Many?<br>e.g. Sawl bachgen sy yn y dosbarth?<br>Sawl cownter sy ar y bwrdd? |
| **Faint o?** + plural noun - How many?<br>e.g. Faint o **f**echgyn sy yn y dosbarth? o + soft mutation<br>Faint o **g**ownteri sy ar y bwrdd? |
| **Ga i?** - May I have? + soft mutation<br>e.g. Ga i **g**reision?<br>Ga i **b**apur newydd? |